

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 25)

Hysbysiad ynghylch Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006–2021

Ar 10^{fed} Rhagfyr 2014, mabwysiadodd Cyngor Sir Gaerfyrddin Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd fydd cynllun datblygu Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon.

Mae copïau o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, argymhellion y sawl a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol, adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol), yr adroddiad ymgynghori, a datganiad sy'n dangos sut yr ystyriwyd yr adroddiad amgylcheddol ac ati ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn holl lyfrgelloedd cyhoeddus y Sir ac yn swyddfeydd canlynol y Cyngor yn ystod yr oriau agor arferol:

Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin;
Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, Tŷ Elwyn, Llanelli;
Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, Neuadd y Dref, Rhydaman;
Y Gwasanaethau Cynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin;
Y Gwasanaethau Cynllunio, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo.

Hefyd mae'r dogfennau uchod ar gael ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk.

Bydd copïau o'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys ei fap cynigion, ar gael i'w prynu oddi wrth y Gwasanaethau Cynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1JY.

Daeth y Cynllun Datblygu Lleol yn weithredol ar y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu (h.y. 10^{fed} Rhagfyr 2014).

Gall un sydd o'r farn fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud cam ag ef/â hi ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu sydd o'r farn na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu ag unrhyw reoliad a wnaed o dani ynghylch mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004 a hynny cyn pen chwe wythnos ar ôl 24ain Rhagfyr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk/cdli a chan yr Adain Flaen-gynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1JY neu drwy anfon neges e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk neu drwy ffonio 01267 228818.

D Gilbert, A.C.I.S., D.M.S., M.C.M.I
Y Cyfarwyddwr Adfywio a Hamdden